Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cyllideb Atodol

2024-2025

## Nodyn Esboniadol

Chwefror 2025

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51623, ISBN digidol 978-1-83715-359-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Dyraniadau Allweddol 3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 12
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion 23
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion 25
6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 28
7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 35

35

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 38

Atodiad 2 – Geirfa 40


Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2024-25, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae’r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i’r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25 fel y’i cymeradwywyd gan Senedd Cymru (‘y Senedd’) ar 22 Hydref 2024.

**1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn unioni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn a rhwng portffolios. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

**1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

**1.4** Mae’r ddogfen hon yn ategu'r tablau manwl, ‘Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)’, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Dyraniadau Allweddol

### 2.1 Cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus

Cyhoeddodd y Prif Weinidog gytundeb Llywodraeth Cymru i ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus ar 10 Medi. Mae **£264m** wedi'i ddyrannu ar draws y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) fel y nodir yn y tabl isod. Mae dadansoddiad o'r dyraniadau cyflog MEG, yn ôl BEL, i'w weld yn y tabl cronfeydd wrth gefn sy'n atodiad i'r nodyn Esboniadol hwn.

| **DYRANIADAU CYFLOG** | |
|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **£m** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 171.914 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 53.395 |
| Addysg | 29.718 |
| Trafnidiaeth | 1.069 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 2.170 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 1.270 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 0.251 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3.958 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyflog i MEGs Llywodraeth Cymru** | **263.745** |

### 2.2 Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE)

SCAPE yw'r broses a ddilynir ar gyfer pennu cyfraniadau cyflogwyr mewn cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu. Elfen allweddol o'r broses yw'r gyfradd ddisgownt SCAPE.

Cafodd cyllid ychwanegol ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a'i ddyrannu i fynd i'r afael â'r effeithiau ar bensiynau'r GIG, pensiynau athrawon a phensiynau'r gwasanaeth tân yng nghyllideb atodol gyntaf 2024-25.

Dyrennir **£25m** pellach yn y gyllideb atodol hon ar gyfer cynlluniau pensiwn y GIG a'r gwasanaeth sifil, ac mae'r dyraniadau i MEGs wedi'u nodi yn y tabl isod.

Mae'r dadansoddiad o ddyraniadau SCAPE y Prif Grwpiau Gwariant, yn ôl BEL, i'w weld yn y tabl Cronfeydd Wrth Gefn sy'n atodiad i'r nodyn Esboniadol hwn.

| **DYRANIADAU SCAPE** | |
|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **£m** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 17.366 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 0.201 |
| Addysg | 0.186 |
| Trafnidiaeth | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 1.461 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 0.571 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 0.408 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 5.276 |
| **Cyfanswm Dyraniadau SCAPE i MEGs Llywodraeth Cymru** | **25.469** |

## 2.3 Blaenoriaethau'r Prif Weinidog

Mae dyraniadau o **£208m** i helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog yn cael eu hunioni yn y gyllideb atodol hon. Cyhoeddwyd y rhain mewn datganiad llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Amseroedd Aros ac mewn Datganiad Ysgrifenedig ar gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2024. Y dyraniadau yn ôl MEG yw:

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Refeniw o **£50.4m** i helpu i ostwng llwybrau gofal a gynlluniwyd sy'n fwy na 104 wythnos; i helpu i ostwng nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am brawf diagnostig; ac i leihau'r twf ym maint y rhestr aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd. Bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu i leihau amseroedd aros hir ar gyfer cleifion niwrowahanol.

- Refeniw o **£27m** i Leihau Llwybrau Gofal. Bydd £19m o'r cyllid hwn yn cefnogi gweithgarwch sy'n cael ei wneud o fewn rhanbarthau i gyflawni nodau Her 50 Diwrnod y Gaeaf ar gyfer Gofal Integredig (yr her 50 diwrnod) i leihau'n sylweddol yr oedi cyn rhyddhau cleifion ar

draws y system iechyd a gofal er mwyn galluogi system fwy gwydn ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng drwy'r gaeaf. Dyrennir gweddill y cyllid i gynorthwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg â chostau refeniw cynyddol lleoliadau cartrefi gofal ychwanegol yn ymwneud â chau wardiau yn ysbyty Tywysoges Cymru.

- Cyfalaf o **£21m** i gefnogi rhaglen o fuddsoddi mewn cyfarpar diagnostig a dyfeisiau meddygol ar draws GIG Cymru, gan adeiladu ar £15m a ddyrannwyd eisoes yn 2024-25 i gefnogi cyfarpar delweddu diagnostig a gwaith cysylltiedig ar draws yr ystad. Wrth i dechnoleg feddygol esblygu, mae offer delweddu uwch fel MRI, sganwyr CT, a pheiriannau uwchsain yn dod yn hanfodol ar gyfer diagnosis cywir a chynllunio triniaeth effeithiol, ac mae'r gwaith uwchraddio'n sicrhau y gall sefydliadau GIG Cymru gyflawni canlyniadau amserol a manwl gywir, gan wella canlyniadau cleifion yn y pen draw;
- Cyfalaf o **£10m** ar gyfer buddsoddi mewn cyfarpar digidol, cefnogi seilwaith digidol hanfodol a diweddaru seiberddiogelwch ar draws ystad y GIG. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol at y cynlluniau a gefnogir drwy'r dyraniad cyfalaf o £30m sydd ar gael yn 2024-25 drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r system ddigidol genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

## Llywodraeth Leol a Thai

- Cyfalaf o **£10m** sy'n darparu mwy o gartrefi i'w rhentu'n gymdeithasol drwy'r Grant Tai Cymdeithasol.

## Addysg

- Refeniw o **£20m** i ysgolion a lleoliadau drwy elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i wella safonau mewn ysgolion, gan godi'r pecyn cymorth hwn i £180m yn 2024-25.

- Refeniw o **£10m** i gefnogi darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ledled Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'n hawdurdodau lleol sicrhau bod y ddarpariaeth hanfodol hon yn cael ei hymestyn i gefnogi'r pwysau a bydd yn ariannu darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY;
- Refeniw o **£20m** ar gyfer Medr, y corff hyd braich sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru i gefnogi addysg bellach ac uwch. Mae hyn yn cynnwys £10m i gefnogi addysgu a dysgu, gwaith ymchwil, ehangu mynediad a rheoli newid mewn prifysgolion, a £10 miliwn i golegau addysg bellach i dalu costau'r galw cynyddol a chymorth i ddysgwyr;
- Cyfalaf o **£20m** ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw mewn ysgolion a cholegau drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n ychwanegol at £30m a ddarparwyd eisoes eleni;
- Cyfalaf o **£15m** i barhau i ariannu trwydded genedlaethol Microsoft365 ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

**Yr Economi, Ynni a Chynllunio**

- Refeniw o **£4.519m** i gefnogi ystod o fesurau ym mhortffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio gan gynnwys dyraniad o £1m i gefnogi gwydnwch sefydliadol ymhellach yn y sector celf drwy Gyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyfalaf o **£0.4m** a ddarperir i Chwaraeon Cymru fel cronfeydd ychwanegol ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf mewn clybiau chwaraeon, megis cefnogi gwaith ar gynlluniau effeithlonrwydd ynni, ailwampio cyfleusterau a darparu cyfleusterau ac offer newydd;
- Cyfalaf o **£0.08m** ar gyfer Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i ddatblygu meddalwedd y Porth Gwaith Achos fel y gellir cyflwyno apeliadau a sylwadau ar-lein.

## 2.4 Dyraniadau eraill i Gronfeydd Wrth Gefn ac ohonynt

Mae dyraniadau gwerth swm pellach o **£247m** yn cael eu hunioni yn y gyllideb atodol hon. Maent yn ymwneud â nifer o ddyraniadau i reoli materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn; cefnogi pwysau; cyllid wedi'i glustnodi a ddaw i law oddi wrth adrannau eraill y llywodraeth; a galluogi newidiadau rhwng cyllidebau cyfalaf a refeniw. Mae dyraniadau allweddol MEG yn cynnwys:

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **£35m** i adlewyrchu nifer o bwysau gan gynnwys diffyg o £15m mewn cyllid o'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Refeniw o **£26m** sy'n cefnogi Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2024-25, gan gynnwys ariannu taliadau sefydlogi practisau i bractisau meddygon teulu;
- Dyraniad refeniw ychwanegol o **£9m** mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig ag atgyweirio to Ysbyty Tywysoges Cymru a mesurau diogelwch tân ac uwchraddiadau trydanol;
- **£56.264m** mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU;
- Mae **£3.454m** yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn mewn perthynas â thanwariant noddfeydd iechyd meddwl;
- Mae **£25m** yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn mewn perthynas ag ildio cyllideb gyfalaf IFRS16 sydd wedi'i chlustnodi.

Yn ogystal, mae trosglwyddiadau net i adrannau eraill y llywodraeth sy'n gofyn am ddychwelyd **£0.638m** i gronfeydd wrth gefn a newid cyllidebol o **£47.57m** o refeniw i gyfalaf o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mae hyn yn ymwneud ag addasiad cyfrifyddu technegol blynyddol sy'n adlewyrchu triniaeth gyfalafu gweithgarwch Ymchwil a Datblygu penodol fel y nodir yn fframwaith cyfrifyddu System Cyfrifon Ewropeaidd 10.

## Llywodraeth Leol a Thai

- Refeniw o **£14m** ar gyfer y Gronfa Rhyddhau Tir yn dilyn gohirio llog sy'n ddyledus o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio;
- Cymorth refeniw o **£10m** ar gyfer cymorth ariannol brys mewn perthynas â difrod a achoswyd gan Storm Bert a Storm Darragh;
- Refeniw o **£2.5m** mewn perthynas â'r cap ar daliadau ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl i oedolion;
- Mae **£75m** yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn mewn perthynas â gostyngiad yn y gofyniad ar gyfer cyllideb y Grant Tai Cymdeithasol oherwydd newid mewn triniaeth gyfrifyddu.

## Addysg

- Refeniw o **£13.5m** i gefnogi Safonau Ysgolion drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Bydd y cyllid hwn yn gwella safonau mewn ysgolion a lleoliadau, a hefyd yn cefnogi ysgolion sy'n destun pryder. Bydd hyn yn codi'r pecyn cymorth Safonau Ysgolion i £193.5m yn 2024-25;
- Refeniw o **£0.823m** i dalu am y TAW ychwanegol a godir ar leoedd ôl-16 mewn colegau arbennig preifat. Yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU, bydd TAW yn gymwys ar y lleoliadau hyn o 1 Ionawr 2025 ac fe gadarnhaodd Trysorlys EF gytundeb i ariannu £0.82m mewn perthynas â'r effaith yn 2024-2025;
- Mae cyfalaf o **£18.5m** yn cael ei ddyrannu i gydnabod yr heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu addysg uwch. Mae cyllid cyfalaf o £18.5m yn cael ei ddarparu i gefnogi prifysgolion i dalu costau a ysgwyddir sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ystadau a phrosiectau digidol i wella effeithlonrwydd gweithredu a chynaliadwyedd amgylcheddol;
- Cyfalaf o **£5m** i gefnogi buddsoddiad yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

- Refeniw o **£0.85m** i gefnogi gwasanaethau addysg i deuluoedd o Affganistan mewn llety pontio, wedi'i drosglwyddo o Lywodraeth y DU.

## Trafnidiaeth

Mae'r gyllideb atodol yn unioni nifer o ddyraniadau a newidiadau o fewn y MEG Trafnidiaeth er mwyn caniatáu ar gyfer ailflaenoriaethu adnoddau ac ailalinio ar draws cyfalaf a refeniw. Mae cyfanswm net o **£148.1m** wedi'i ddyrannu, sy'n cynnwys £55.1m o refeniw a £93m o gyfalaf.

- Diben pennaf y cyllid ychwanegol yw cynorthwyo â'r costau cyfalaf ychwanegol sy'n codi mewn perthynas â llinell graidd y Cymoedd oherwydd chwyddiant a newidiadau yn y proffil cyflenwi (**£147.1m**).
- Bydd y cyllid refeniw ychwanegol yn gwella diogelwch a gwydnwch y rhwydwaith ffyrdd strategol (**£33.5m**), yn cynorthwyo â'r gofynion ychwanegol o ran cymhorthdal rheilffyrdd (**£19.631m**) a'r cynnydd yn y galw am gymhorthdal tocynnau rhatach (**£3.9m**), ac yn cyfrannu at gyllido'r cynnydd yn y rhaglen GanBwyll (**£1.069m**).
- Mae'r gwariant ychwanegol yn cael ei wrthbwyso gan nifer o symiau sy'n cael eu dychwelyd i gronfeydd wrth gefn oherwydd tanwariant, yn cynnwys cyfalaf o **£27.8m** a ddychwelwyd mewn perthynas â gweithrediadau'r Rhwydwaith; cyfalaf o **£25.3m** a ildiwyd mewn perthynas â Chymorth i Fysiau; tanwariant refeniw o **£3m** ym maes Hedfanaeth a thanwariant cyfalaf o **£1m** o ganlyniad i danwariant ym maes Datblygu Seilwaith Strategol.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Refeniw o **£7m** mewn perthynas â chostau pensiwn Cyfoeth Naturiol Cymru a gafodd eu setlo yn gynt na'r disgwyl;
- Refeniw o **£0.7m** i gefnogi costau diwygio'r Senedd;

- Mae **£3.4m** yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn o'r MEG Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer Rheolaethau'r Ffin.

Bu newid cyllidebol hefyd o **£16m** o gyfalaf i refeniw o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae hyn yn ymwneud â thanwariant cyfalaf yn achos cyllideb Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol a gwneir y dyraniad refeniw dilynol i gefnogi costau atebolrwydd treth Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Yr Economi, Ynni a Chynllunio

- Refeniw o **£25m** yn fesur wrth gefn i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o fewn y MEG os bydd costau ychwanegol sylweddol yn codi mewn perthynas â phwysau posibl;
- Cyfalaf o **£2.357m** mewn perthynas â'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf.
- Trosglwyddiadau gan Lywodraeth y DU sy'n gyfanswm o **£2.463m** ar gyfer Porthladdoedd Rhydd, Tata a'r gronfa beilot Sgiliau Swyddi Ynni Glân.

### Cyfiawnder Cymdeithasol

- Cyfalaf o **£0.986m** i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i gefnogi gweithgarwch ychwanegol o fewn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol;
- Trosglwyddiad o **£0.715m** gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Gwasanaethau Cynghori Ariannol.

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

- **£25m** o refeniw i gefnogi pwysau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys cyfraniad ar gyfer dyfarniad cyflog cychwynnol 2024/25;
- trosglwyddiadau net o **£0.245m** ag adrannau eraill y llywodraeth.

## 2.5 Symudiadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn ac oddi wrthynt

Mae **£14m** wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i brosiectau Trafodiadau Ariannol nad ydynt yn symud ymlaen o fewn y portffolio Trafnidiaeth. Mae'r gyllideb Trafodiadau Ariannol wedi'i chlustnodi ac mae tanwariant wedi'i ailbwrpasu i'r meysydd canlynol:

- **£5m** i'r MEG Addysg ar gyfer Prosiect Canol Tref Aberhonddu Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, er mwyn i'r rhan fwyaf o gampws Aberhonddu'r Coleg sydd y tu allan i'r dref gael ei ddisodli gan ddau adeilad wedi'u hailwampio yng nghanol tref Aberhonddu;
- **£2.322m** i'r MEG Addysg ar gyfer prosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol Coleg Caerdydd a'r Fro i ddatblygu dau gampws newydd ym Mro Morgannwg yn lle'r prif gampws presennol;
- **£1m** i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

## 2.6 Symudiadau mewn DEL Adnoddau Anghyllidol

Mae Dyraniadau Anghyllidol gwerth cyfanswm o **£215m** wedi'u gwneud o gronfeydd wrth gefn, yn bennaf i'r MEG Addysg i adlewyrchu newidiadau yng ngwerth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr a'r MEG Trafnidiaeth ar gyfer dibrisiant Llinellau Craidd y Cymoedd (gweler Tabl 3.1).
Mae cyllidebau anghyllidol wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio at ddibenion eraill.

## 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25

**3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 isod yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

## Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 16,426,101 | 628,910 | 17,055,011 |
| Anghyllidol | 1,049,686 | 188,243 | 1,237,929 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 28,188 | 611 | 28,799 |
| Anghyllidol | 482,538 | 94,910 | 577,448 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,079,000 | 0 | 1,079,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru [Nodyn] | 3,491,131 | 0 | 3,491,131 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 243,731 | 82,493 | 326,224 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 28,340 | 5,901 | 34,241 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -7,998 | 0 | -7,998 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **22,945,717** | **1,001,068** | **23,946,785** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 2,954,600 | 256,541 | 3,211,141 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 50,000 | 0 | 50,000 |
| Trafodiadau Ariannol | 165,344 | 0 | 165,344 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 1,521,382 | 120,915 | 1,642,297 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 0 | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **4,841,326** | **377,456** | **5,218,782** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **27,787,043** | **1,378,524** | **29,165,567** |

Nodyn

Yn cynnwys swm cysoni ar gyfer alldro 2022-23 yn 2024-25

## Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | | 12,529,235 | 437,963 | 12,967,198 |
| Llywodraeth Leol a Thai | | 7,407,397 | 5,707 | 7,413,104 |
| Addysg | | 3,764,022 | 378,901 | 4,142,923 |
| Trafnidiaeth | | 1,661,761 | 220,045 | 1,881,806 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | | 837,396 | 44,606 | 882,002 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | | 848,758 | 91,629 | 940,387 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | | 153,902 | 2,951 | 156,853 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 404,160 | 34,544 | 438,704 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | | **27,606,631** | **1,216,346** | **28,822,977** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 35,837 | 45,147 | 80,984 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 76,750 | -21,494 | 55,256 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyfalaf Cyffredinol | -110,089 | 110,506 | 417 |
| | Cyfalaf Cyffredinol – IFRS16 | 76,909 | 25,000 | 101,909 |
| | Trafodiadau Ariannol | 9,988 | 5,421 | 15,409 |
| Comisiwn y Senedd [Nodyn 1] | | 72,830 | -2,300 | 70,530 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Nodyn 2] | | 6,358 | -90 | 6,268 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | 9,459 | 0 | 9,459 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 1,564 | 0 | 1,564 |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 806 | -12 | 794 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **27,787,043** | **1,378,524** | **29,165,567** |

**Nodiadau**

1. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2024-25 ei chyflwyno i'r Senedd gan Gomisiwn y Senedd ym mis Ionawr 2025. Adroddodd fod gostyngiad o £400k yn ei adnoddau cyllidol a gostyngiad o £500k yn ei gyfalaf.

2. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2024-25 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2025. Adroddodd fod gostyngiad o £24k yn ei adnoddau cyllidol a gostyngiad o £66k yn ei adnoddau anghyllidol.

## Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CYLLIDOL** | | | **ANGHYLLIDOL** | | |
| | **Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025** | **Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024** | **Newidiad au** | **Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 11,362,008 | 340,670 | 11,702,678 | 323,561 | -4,790 | 318,771 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 5,118,557 | 79,222 | 5,197,779 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 1,722,296 | 98,907 | 1,821,203 | 281,231 | 151,324 | 432,555 |
| Trafnidiaeth | 514,086 | 56,169 | 570,255 | 291,997 | 56,694 | 348,691 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 527,761 | 27,051 | 554,812 | 19,079 | 2,955 | 22,034 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 434,649 | 35,065 | 469,714 | 32,137 | 3,620 | 35,757 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 138,417 | 965 | 139,382 | 633 | 0 | 633 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 372,552 | 34,544 | 407,096 | 18,687 | 0 | 18,687 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **20,190,326** | **672,593** | **20,862,919** | **967,325** | **209,803** | **1,177,128** |

## Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYFALAF CYFFREDINOL | | | TRAFODIADAU ARIANNOL | | |
| | Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025 | Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 526,476 | 52,188 | 578,664 | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 1,071,630 | -74,126 | 997,504 | 105,809 | 0 | 105,809 |
| Addysg | 346,127 | 58,500 | 404,627 | 346 | 7,322 | 7,668 |
| Trafnidiaeth | 661,306 | 102,700 | 764,006 | 13,628 | -14,000 | -372 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 264,556 | -21,400 | 243,156 | 20,000 | 0 | 20,000 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 289,832 | 2,687 | 292,519 | 15,615 | 257 | 15,872 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 14,668 | 986 | 15,654 | -42 | 1,000 | 958 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 9,721 | 0 | 9,721 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **3,184,316** | **121,535** | **3,305,851** | **155,356** | **-5,421** | **149,935** |

**3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod ac mae manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld yn adran 6.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**3.3** Cafwyd cynnydd net o £628,910k i'r llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol, sy'n cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £795,354k ac yn cynnwys:
  - £757,937k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2024 gan Lywodraeth y DU;
  - £37,417k a ddaeth i law adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2025;
- Gostyngiad yn sgil newid £223,500k o adnoddau i gyfalaf;
- Trosglwyddiad net allan o £2,215k i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) sy'n cynnwys:
  - Trosglwyddiad allan o £3,422k mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at weithgareddau Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn 2024-25;
  - Trosglwyddiad i mewn o £413k mewn perthynas â Chronfa Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) – Asesiad Technoleg Iechyd;
  - Trosglwyddiad i mewn o £596k mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV;
  - Trosglwyddiad i mewn o £198k mewn perthynas â chostau cyfreithiol a gweinyddol y Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV;
- Trosglwyddiad allan o £16k i Swyddfa’r Cabinet mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at ‘y Gwasanaeth Sifil yn Fyw’ yn 2024.

- Trosglwyddiad i mewn o £52,252k oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r balans sy'n ddyledus am 2024-25 ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £6,154k oddi wrth Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU (MHCLG) sy'n cynnwys:
  - £2,771k mewn perthynas â'r Gronfa Cartrefi i Wcráin;
  - £1,400k mewn perthynas â Phorthladdoedd Rhydd;
  - £1,066k mewn perthynas â'r Gronfa Adsefydlu Plant a Phobl Ifanc;
  - £500k mewn perthynas ag ymyriad cadwyn gyflenwi TATA;
  - £363k mewn perthynas â Chronfa Hyblyg Dechrau Busnes, Gwydnwch a Thwf Busnes TATA;
  - £54k mewn perthynas â Chronfa Ailsefydlu Pobl o Hong Kong;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £1,130k oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a gwasanaethau a ddarperir yn Llanelwy, sy'n cynnwys:
  - £850k ar gyfer gwasanaethau addysgol;
  - £280k ar gyfer gwasanaethau iechyd;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £130k oddi wrth Gyllid a Thollau EF sy'n cynnwys:
  - £125k mewn perthynas â gwasanaethau cyngor ariannol;
  - £5k mewn perthynas ag amodoldeb yr economi gudd;
- Trosglwyddiad i mewn o £797k oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn perthynas â'r prosiect Lleoliad a Chymorth i Unigolion mewn Gofal Sylfaenol (IPSPC);
- Trosglwyddiad i mewn o £261k oddi wrth y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) mewn perthynas â'r Gronfa Ddiogelwch Integredig;
- Trosglwyddiad i mewn o £200k oddi wrth yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) mewn perthynas â Chronfa Sgiliau Rhanbarthol Pontio Teg;

- Trosglwyddiad o £12,400k i mewn oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â newidiadau i IFRS16;
- Trosglwyddiad i mewn o £4,012k oddi wrth Drysorlys EF ynghylch symiau'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiad net o £1,491k i mewn oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chyllid Ffiniau, sy'n cynnwys;
  - £3,015k a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2024 gan Lywodraeth y DU;
  - £1,524k a ddychwelwyd i Drysorlys EF fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU;
- Trosglwyddiad i mewn o £823k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas ag iawndal TAW ysgolion preifat;
- Trosglwyddiad i mewn o £86k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas ag ad-daliad rheoli arian parod;
- Gostyngiad o ganlyniad i gynnydd net o £20,449k yn yr addasiad i'r grant bloc.

## Adnoddau Anghyllidol

**3.4** Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf cafwyd cynnydd o £188,243k yn y llinell sylfaen adnoddau anghyllidol, sy'n cynnwys £35,997k mewn dibrisiant cyffredinol a £152,246k oherwydd newid mewn Benthyciadau i Fyfyrwyr.

## Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Mae incwm treth ddatganoledig wedi cynyddu £88,394k ers y gyllideb atodol gyntaf.

Mae'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthyca wedi aros heb ei newid sef £7,998k.

## Cyfalaf Cyffredinol

**3.6** Cafwyd cynnydd o swm net o £256,541k yn y llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf, sy'n cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £40,598k ac yn cynnwys:

- £42,412k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2024 gan Lywodraeth y DU;
- £1,814k a ddidynnwyd adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2025;

- Cynnydd o £4,357k mewn ychwanegiadau nad ydynt yn Barnett mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf;
- Cynnydd o ganlyniad i newid £223,500k o adnoddau i gyfalaf;
- Gostyngiad oherwydd dileu'r rhagdybiaeth o £10,000k o gyllid ar gyfer Ffiniau a gynhwyswyd yn y gyllideb atodol gyntaf;
- Gostyngiad net o £2,414k mewn perthynas â chyllid Ffiniau, sy'n cynnwys:
  - £2,116k a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EF yng Nghyllideb yr Hydref 2024:
  - £4,530k a ddychwelwyd i Drysorlys EF fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU;
- £500k oddi wrth DHSC mewn perthynas â Chronfa Fuddsoddi VPAG – Ymchwil a Datblygu Treialon Clinigol.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3.7** Ni fu unrhyw newid i'r llinell sylfaen cyfalaf trafodiadau ariannol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf.

## Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2024-25 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL (AME) | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Cyllidol** | **Anghyll-idol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffredin-ol** | **Trafodiad-au Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnodd-au** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm AME** | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 11,702,678 | 318,771 | **12,021,449** | 578,664 | 0 | **578,664** | 290,645 | 76,440 | **367,085** | 11,702,678 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 5,197,779 | 0 | **5,197,779** | 997,504 | 105,809 | **1,103,313** | 1,112,012 | 0 | **1,112,012** | 5,197,779 |
| Addysg | 1,821,203 | 432,555 | **2,253,758** | 404,627 | 7,668 | **412,295** | -88,987 | 1,565,857 | **1,476,870** | 1,821,203 |
| Trafnidiaeth | 570,255 | 348,691 | **918,946** | 764,006 | -372 | **763,634** | 199,226 | 0 | **199,226** | 570,255 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 554,812 | 22,034 | **576,846** | 243,156 | 20,000 | **263,156** | 42,000 | 0 | **42,000** | 554,812 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 469,714 | 35,757 | **505,471** | 292,519 | 15,872 | **308,391** | 126,525 | 0 | **126,525** | 469,714 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,382 | 633 | **140,015** | 15,654 | 958 | **16,612** | 226 | 0 | **226** | 139,382 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 407,096 | 18,687 | **425,783** | 9,721 | 0 | **9,721** | 3,200 | 0 | **3,200** | 407,096 |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU** | **20,862,919** | **1,177,128** | **22,040,047** | **3,305,851** | **149,935** | **3,455,786** | **1,684,847** | **1,642,297** | **3,327,144** | **20,862,919** |

## 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

**4.1** Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng Portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon, gan wneud cyfanswm o £16,911k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod:

| | Adnoddau Cyllidol £'000 | | | Cyfalaf £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | I | O | Trosglwydd-iadau Net | I | O | Trosglwydd-iadau Net |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 134 | -3,704 | -3,570 | 1,576 | - | 1,576 |
| Llywodraeth Leol a Thai | - | -874 | -874 | - | -9,126 | -9,126 |
| Addysg | 3,904 | -74 | 3,830 | - | - | - |
| Trafnidiaeth | - | - | - | 9,700 | - | 9,700 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | - | -280 | -280 | - | -2,000 | -2,000 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 1,238 | - | 1,238 | - | -150 | -150 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 105 | -514 | -409 | - | - | - |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 254 | -189 | 65 | - | - | - |
| | **5,635** | **-5,635** | **-** | **11,276** | **-11,276** | **-** |

**4.2** Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

### Adnoddau Cyllidol

**4.3** Mae £3,704k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Addysg a Hyfforddiant o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r BEL Gwariant Rhaglenni Medr o fewn y MEG Addysg. Mae'r trosglwyddiad yn ymwneud â rhaglen ehangu meddygol Gogledd a Gorllewin Cymru.

Cyfalaf Cyffredinol

**4.4** Mae £1,426k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Iechyd a Thai o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r trosglwyddiad yn ymwneud â'r Gronfa Tai â Gofal.

**4.5** Mae dau swm gwerth cyfanswm o £9,700k wedi'u trosglwyddo i'r BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith o fewn y MEG Trafnidiaeth i gefnogi datgarboneiddio Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru.

- Mae £7,700k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Tai'r Farchnad Agored a Chynlluniau Eraill o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai yn dilyn ailbroffilio cyllidebau cyfalaf;
- Mae £2,000k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

# 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn y Tablau BELs cyhoeddedig. Mae'r trosglwyddiadau sy'n fwy nag £1m i'w gweld isod:

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**5.2** Un trosglwyddiad adnoddau o £3,270k o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG i'r BEL Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'u Targedu.

## Llywodraeth Leol a Thai

**5.3** Er mwyn ailbwrpasu tanwariant a ragwelir mae trosglwyddiadau adnoddau o £13,500k wedi digwydd o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £13,000k i'r BEL Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol;
- Trosglwyddo £9,500k o'r BEL Rhyddhad Ardrethi Annomestig;
- Trosglwyddo £2,500k o'r BEL Diwygio Trethi Lleol;

Yn ogystal, fel rhan o ymarfer ailbroffilio, mae trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £90,337k wedi digwydd hefyd rhwng BELs o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £78,770k i'r BEL Grantiau Tai Cymdeithasol;
- Trosglwyddo £11,000k i'r BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol;
- Trosglwyddo £67,670k o'r BEL Diogelwch Adeiladau;
- Trosglwyddo £11,000k o'r BEL Cartrefi Clyd;
- Trosglwyddo £7,300k o'r BEL Tai'r Farchnad Agored a Chynlluniau Eraill;
- Trosglwyddo £3,800k o'r BEL Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Llenwi'r Bwlch Gwaddol.

## Addysg

**5.4** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £7,567k rhwng BELs o fewn y MEG Addysg. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £5,000k i'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon;
- Trosglwyddo £1,800k i'r BEL Tegwch mewn Addysg o'r BEL Mynd i'r Afael â Dadrithiad.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**5.5** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £43,489k wedi digwydd rhwng BELs yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae £43,080k ohonynt yn ymwneud ag uno sawl BEL ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafwyd trosglwyddiadau lluosog gwerth cyfanswm o £12,287k rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £8,560k i'r BEL Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol;
- Trosglwyddo £1,300k i'r BEL TGCh Taliadau Gwledig o'r BEL Cynllun Buddsoddiadau Gwledig;
- Trosglwyddo £1,052k i'r BEL Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru o'r BEL Twf Gwyrdd Buddsoddi i Arbed.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio

**5.6** Cafwyd trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £21,899k rhwng BELs o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £20,000k i'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol
- Trosglwyddo £1,000k i'r BEL Chwaraeon Cymru o'r BEL Twristiaeth.

### Cyfiawnder Cymdeithasol

**5.7** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £7,654k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo £3,450k i'r BEL Cefnogi Cymunedau:
- Trosglwyddo £2,965k i'r BEL Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli;
- Trosglwyddo £3,900k o'r BEL Cynhwysiant Ariannol;
- Trosglwyddo £2,597k o'r BEL Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol.

Mae trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £1,482k hefyd wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, gan gynnwys £1,167k a drosglwyddwyd o'r BEL Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

## 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**6.1** Mae'r gyllideb yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Manylir ar y prif ddyraniadau adnoddau a chyfalaf cyffredinol ym Mhennod 2. Ceir crynodeb o'r effaith net ar bob MEG yn nhabl 6.1 isod ac mae rhestr lawn sy'n rhoi manylion yr holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.2** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £727,077k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £395,228k.
- Llywodraeth Leol a Thai - £80,096k.
- Addysg - £95,077k.
- Trafnidiaeth - £59,169k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £27,331k.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £33,827k.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £1,374k.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £34,495k.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.3** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £54,484k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £50,988k.
- Trafnidiaeth - £3,000k.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £16k.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.4** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £220,390k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £491k;
- Addysg - £151,324k yn ymwneud â'r tâl stoc ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr;
- Trafnidiaeth - £62,000k mewn perthynas â dibrisiant yn ymwneud â Trafnidiaeth Cymru;
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £2,955k;
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £3,620k.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.5** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £10,587k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £5,281k; y mae £5,277k ohono yn ymwneud â gostyngiad yn y gofyniad anghyllidol ar gyfer y GIG;
- Trafnidiaeth – £5,306k mewn perthynas â gostyngiad mewn dibrisiant Iesoedd yn ymwneud â Trafnidiaeth Cymru.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.6** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £298,489k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol – £79,066k.
- Llywodraeth Leol a Thai - £10,000k.
- Addysg - £58,500k.
- Trafnidiaeth - £147,100k.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £2,837k.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £986k.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.7** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £176,954k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma’r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £28,454k.
- Llywodraeth Leol a Thai - £75,000k.
- Trafnidiaeth - £54,100k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £19,400k.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.8** Cafwyd pedwar trosglwyddiad net gwerth cyfanswm o £8,579k o'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon: Dyma’r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Addysg - £7,322k, sef £5,000k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Campws NPTC Aberhonddu, Prosiect Canol Tref Aberhonddu a £2,322k mewn perthynas â Choleg Caerdydd a'r Fro;
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £257k i leihau ad-daliad benthyca cytunedig yn ystod y flwyddyn.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £1,000k mewn perthynas â'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.9** Bu dau drosglwyddiad yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, sef cyfanswm o £14,000k. Cafodd y ddau eu gwneud o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ac roeddent yn gysylltiedig â chyllid nas defnyddiwyd ar gyfer cynlluniau Cymru Sero Net ym maes trafnidiaeth.

## Newidiadau yn y Gyllideb

**6.10** Bu newidiadau lluosog rhwng y cronfeydd adnoddau cyllidol a'r cronfeydd cyfalaf cyffredinol o fewn y gyllideb atodol hon, o ran y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y MEG Newid Hinsawdd a Materion

Gwledig a MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae'r effaith net ar y ddwy gronfa wrth gefn yn sero ond mae manylion llawn y symudiadau i'w gweld yn y tablau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Trosglwyddiadau Eraill â Chronfeydd Wrth Gefn

**6.11** Cafwyd trosglwyddiadau eraill â chronfeydd canolog nad ydynt yn effeithio ar y MEGs. Mae canlyniad net y rhain fel a ganlyn:

- Gostyngiad o £436k mewn cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn;
- Gostyngiad o £66k mewn cronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn
- Gostyngiad o £500k mewn cronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn.

**Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2023-24 ers y Gyllideb Atodol Gyntaf a’r Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn sy’n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm yr Adnoddau | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| **Cronfeydd wrth Gefn yn ôl y Gyllideb Atodol Gyntaf** | 35,837 | 76,750 | **112,587** | -33,180 | 9,988 | **-23,192** | **89,395** |
| Trosglwyddiadau a Symiau Canlyniadol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf | 852,410 | 188,243 | **1,040,653** | 33,041 | 0 | **33,041** | **1,073,694** |
| Newid mewn Addasiadau i Ragolygon Trethi Datganoledig | 88,394 | 0 | **88,394** | 0 | 0 | **0** | **88,394** |
| Symudiad yn y prifswm benthyca | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | **0** |
| Newidiadau yn y Gyllideb | -223,500 | 0 | **-223,500** | 223,500 | 0 | **223,500** | **0** |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig** | **753,141** | **264,993** | **1,018,134** | **223,361** | **9,988** | **233,349** | **1,251,483** |
| **NEWIDIADAU ERAILL I MEGS SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | -344,240 | 4,790 | **-339,450** | -50,612 | 0 | **-50,612** | **-390,062** |
| Llywodraeth Leol a Thai | -80,096 | 0 | **-80,096** | 65,000 | 0 | **65,000** | **-15,096** |
| Addysg | -95,077 | -151,324 | **-246,401** | -58,500 | -7,322 | **-65,822** | **-312,223** |
| Trafnidiaeth | -56,169 | -56,694 | **-112,863** | -93,000 | 14,000 | **-79,000** | **-191,863** |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | -27,331 | -2,955 | **-30,286** | 19,400 | 0 | **19,400** | **-10,886** |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | -33,827 | -3,620 | **-37,447** | -2,837 | -257 | **-3,094** | **-40,541** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | -1,374 | 0 | **-1,374** | -986 | -1,000 | **-1,986** | **-3,360** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -34,479 | 0 | **-34,479** | 0 | 0 | **0** | **-34,479** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **NEWIDIADAU ERAILL I MEGS SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **-672,593** | **-209,803** | **-882,396** | **-121,535** | **5,421** | **-116,114** | **-998,510** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Comisiwn y Senedd | 400 | 0 | **400** | 500 | 0 | **500** | **900** |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 24 | 66 | **90** | 0 | 0 | **0** | **90** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 12 | 0 | **12** | 0 | 0 | **0** | **12** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **436** | **66** | **502** | **500** | **0** | **500** | **1,002** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon** | **80,984** | **55,256** | **136,240** | **102,326** | **15,409** | **117,735** | **253,975** |

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

**6.12** Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn cael eu diweddaru bob blwyddyn ariannol i gymryd i ystyriaeth y symudiadau canlynol:

- Cynnydd oherwydd tanwariant sy'n codi ar ôl cyfrifo'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
- Gostyngiadau oherwydd y symiau a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Y terfynau tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru yw adnoddau o £125m a chyfalaf o £50m.  Gall y cyfalaf a dynnir i lawr gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol.

Mae tabl 6.2 isod yn dangos y symiau a gadarnhawyd a ddelir ar hyn o bryd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**Tabl 6.2 - Balansau a ddelir ar hyn o bryd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru**

| | £'000 | | |
|---|---|---|---|
| **SYMUDIADAU** | **Adnoddau heb eu Neilltuo** | **Cyfalaf Cyffredinol** | **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** |
| Balans a ddygwyd ymlaen o 2023-24 | 243,242 | 83,245 | 0 |
| Tynnu i lawr yn 2024-25 | -125,000 | -50,000 | 0 |
| **Y balans presennol sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru** | **118,242** | **33,245** | **0** |

## 7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**7.1** Mae’r cyllidebau AME a nodir yn y gyllideb atodol hon yn adlewyrchu’r rhagolygon diwethaf a ddarparwyd i Drysorlys EF ym mis Ionawr 2025. Mae'r newidiadau a wnaed ers i'r Gyllideb Atodol Gyntaf gael ei chymeradwyo yn cynnwys:

- Cynnydd net o £49,895k yng nghyllideb AME y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer amhariadau a darpariaethau yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru, sy'n cynnwys:
    - ➢ Gostyngiad o £24,264k yn yr AME adnoddau;
    - ➢ Cynnydd o £74,159k yn yr AME cyfalaf.
- Cynnydd o £611k yng nghyllideb AME adnoddau y MEG Llywodraeth Leol a Thai i adlewyrchu newid yn narpariaeth Pensiynau'r Gwasanaeth Tân.
- Cynnydd o £62,828k yng nghyllideb AME y MEG Addysg i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys:
    - ➢ Cynnydd o £16,092k yn yr AME adnoddau;
    - ➢ Cynnydd o £46,756k yn yr AME cyfalaf.
- Cynnydd yng nghyllideb AME adnoddau y MEG Trafnidiaeth i adlewyrchu cynnydd yn amhariadau'r rhwydwaith ffyrdd.
- Cynnydd sy'n gyfanswm o £36,000k yng nghyllideb AME adnoddau y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, sy'n cynnwys:
    - ➢ £35,000k mewn perthynas â'r amhariad yn ymwneud â choedwigaeth ac asedau biolegol.
    - ➢ £1,000 mewn perthynas â'r ddarpariaeth drwgddyledion.

- Cynnydd o £50,000k yn y gyllideb AME adnoddau ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ymwneud â darpariaeth newydd ar gyfer y BEL Ynni Gwyrdd.

Mae Tabl 7.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME presennol.

## Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ADNODDAU | | | CYFALAF | | |
| | Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025 | Cyllideb Atodol 2024-25 Hydref 2024 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Chwefror 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 314,909 | -24,264 | 290,645 | 2,281 | 74,159 | 76,440 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 1,111,401 | 611 | 1,112,012 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | -105,079 | 16,092 | -88,987 | 1,519,101 | 46,756 | 1,565,857 |
| Trafnidiaeth | 180,744 | 18,482 | 199,226 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 6,000 | 36,000 | 42,000 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 76,525 | 50,000 | 126,525 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 226 | 0 | 226 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,200 | 0 | 3,200 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Lywodraeth Cymru** | **1,587,926** | **96,921** | **1,684,847** | **1,521,382** | **120,915** | **1,642,297** |

## Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy’n nodi’r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2024-23 a'r arian parod y mae’n ceisio awdurdod i’w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys EF ac yn cyd-fynd â'r Tablau BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn dod o dan yr 'Adnoddau y Gofynnir Amdanynt' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

| | CYLLIDEB ATODOL 2024-25 £000oedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **Llywodraeth Leol a Thai** | **Addysg** | **Trafnid-iaeth** | **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** | **Yr Economi, Ynni a Chynllunio** | **Cyfiawn-der Cymdeith-asol** | **Gwasan-aethau Canolog a Gwein-yddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 12,021,449 | 5,197,779 | 2,253,758 | 918,946 | 576,846 | 505,471 | 140,015 | 425,783 | **22,040,047** |
| Cyfalaf | 578,664 | 1,103,313 | 412,295 | 763,634 | 263,156 | 308,391 | 16,612 | 9,721 | **3,455,786** |
| AME Adnoddau | 290,645 | 1,112,012 | -88,987 | 199,226 | 42,000 | 126,525 | 226 | 3,200 | **1,684,847** |
| AME Cyfalaf | 76,440 | 0 | 1,565,857 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,642,297** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **12,967,198** | **7,413,104** | **4,142,923** | **1,881,806** | **882,002** | **940,387** | **156,853** | **438,704** | **28,822,977** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -60 | 0 | -828 | 0 | -55,500 | -38,677 | 0 | 0 | **-95,065** |
| Benthyca â Chymorth | 0 | -88,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-88,800** |
| Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-906** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu) | 0 | -1,084,172 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-1,084,172** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -12,254 | **-12,254** |
| Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | 0 | 0 | 0 | -10,362 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-10,362** |
| **ADNODDAU Y GOFYNNIR AMDANYNT** | **12,966,232** | **6,240,132** | **4,142,095** | **1,871,444** | **826,502** | **901,710** | **156,853** | **426,450** | **27,531,418** |

## Atodiad 2 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer y Cyllidebau Blynyddol ac Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGs. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau o Wariant. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Trafodiadau Ariannol** | Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw) | Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau. |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 8 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Llywodraeth Leol a Thai; Addysg; Trafnidiaeth; Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Yr Economi, Ynni a Chynllunio; Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (cyfeirir ato weithiau fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod') | Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys swm ar gyfer dibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |

| | |
|---|---|
| **Adolygiad o Wariant** | O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. |